

Tystysgrif NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr (6008-01)

Gorffennaf 2025 Fersiwn 3.4

Ar gyfer addysgu o Medi 2024 ymlaen

Llawlyfr Cymwysterau

Cipolwg ar y cymhwyster

Grŵp oedran wedi'i gymeradwyo	16-19; 19+
Gofynion mynediad	Dim
Mathau o asesiadau	Portffolio; Amlddewis; Cwestiynau atebion byr
Cymeradwyaethau	Angen cais cymeradwyaeth; Cymeradwyaeth llwybr carlam
Deunyddiau cymorth	Canllaw i Aseswyr; Llyfr log ymgeiswyr
Prentisiaeth	Nid yw'r cymhwyster hwn yn rhan o fframwaith prentisiaeth.
Cofrestru ac ardystio	Gweler Catalog y Walled Garden/Ar-lein am y dyddiadau olaf

Teitl a lefel	ODDA	CAC	Rhif City & Guilds	Rhif achredu
---------------	------	-----	--------------------	--------------

Tystysgrif NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr	208	230	6008-01	601/5909/1
---	-----	-----	---------	------------

Fersiwn a dyddiad	Manylion newid	Adran
1.1 Gorffennaf 2015	Uned 212 - ychwanegu datganiad gwybodaeth K21 i MP3.2 Diffiniadau wedi'u cywiro ar gyfer "3D" a "Diheintio" yn Atodiad 3	Unedau, Atodiad 3
2.0 Tachwedd 2015 staff	Eglurhad wedi'i wneud i ofynion i sy'n cyflwyno'r cymhwyster.	Gofynion
3.0 Mai 2016	Diweddarwyd gofynion tystiolaeth unedau yn unol â strategaeth asesu Habia	Canolfannau Unedau
3.1 Medi 2017	Ychwanegwyd manylion ODDA a CAC	Cipolwg ar y cymhwyster a'r Cyflwyniad

3.2 April 2023	Titling Updated	Throughout
3.2 Ebrill 2023	Diweddarwyd y Teitlau	Drwyddi draw
3.3 June 2024	Diweddarwyd Datganiad CASSted CASS statement Diweddarwyd dulliau asesu	Rhan 3 Drwyddi draw
3.4 Gorffennaf 2025	Diweddarwyd yr ystod oedran sydd yn maen prawf ar gyfer cofrestru ar y rhaglen	Tudalen 2 - Cipolwg ar y cymhwyster

Cynnwys

Cipolwg ar y cymhwyster	2
Cynnwys	4
1 Cyflwyniad	6
2 Strwythur	7
3 Gofynion y ganolfan	9
Cymeradwyaeth	9
Gofynion adnoddau	9
Gofynion mynediad dysgwyr	10
4 Cyflwyno'r cymhwyster	11
Asesu cychwynnol a chynefinou	11
Deunyddiau cefnogi	11
5 Asesu	12
Crynodeb o ddulliau asesu	12
Mathau o asesiadau	12
Strategaeth asesu	13
Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)	14
6 Unedau	15
Unedau	15
Rhifau uned	15
Uned 101 Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt a chynnal a chadw ardaloedd gwaith (CHB1)	16
Uned 102 Cyfrannu at ddatblygu perthynas waith effeithiol (CHB2) 21	
Uned 103 Chwyth-sychu gwallt (CHB5)	25
Uned 104 Siampwio a chyflyru gwallt (CHB10)	30
Uned 105 Cynorthwyo gyda gwasanaethau llacio (AH1)	36
Uned 106 Cynorthwyo gyda dyletswyddau derbynfa salon (CHB3)	41
Uned 107 Cynorthwyo gyda lliwio gwallt a gwasanaethau goleuo (CHB4)	46
Uned 108 Plethu a throelli gwallt gan ddefnyddio technegau sylfaenol (CHB6)	51
Uned 109 Cynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmiio (CHB7)	57
Uned 212 Tynnu estyniadau gwallt (CHB8)	62
Uned 218 Cynorthwyo gyda gwasanaethau eillio (CB1)	67
Atodiad 1 Gwerthoedd	73

Atodiad 2	Ymddygiadau	74
Atodiad 3	Geirfa	75
Atodiad 4	Cysylltiadau defnyddiol	82

1 Cyflwyniad

Maes	disgrifiad
Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?	Mae Tystysgrif NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n newydd i'r diwydiant ac nad oes ganddynt fawr ddim profiad, neu ddim, o drin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r cymhwyster yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol sy'n profi cymhwysedd galwedigaethol fel cynorthwydd trin gwallt neu waith barbwr.
Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu?	Mae'r cymhwyster hwn yn caniatáu i'r ymgeiswyr ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau y mae eu hangen i gynorthwyo gyda gwasanaethau fel llacio, lliwio a goleuo, pyrmio, eillio, plethu, troelli, siampwio, cyflyru a chwyth-sychu gwallt, datblygu perthynas waith effeithiol a chynorthwyo gyda dyletswyddau derbynfa a chynnal meysydd gwaith.
Pa gyfleoedd sydd ar gyfer dilyniant?	Gall dysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth fel cynorthwydd salon a/neu i'r cymwysterau City & Guilds canlynol: Diploma NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt Diploma NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Barbwr
Gyda phwy wnaethon ni ddatblygu'r cymhwyster hwn? A yw'n rhan o fframwaith neu fenter brentisiaeth?	Datblygwyd y cymhwyster hwn gyda Habia. Nid yw'r cymhwyster hwn yn rhan o fframwaith na menter prentisiaeth.

2 Strwythur

Er mwyn cyflawni Tystysgrif NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr, rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 23 credyd yn gyfan gwbl. Rhaid ennill 14 credyd o'r unedau gorfodol, ac ennill o leiaf 9 credyd o'r unedau dewisol.

RHAU	Rhif uned City & Guilds	Teitl yr uned	Gwerth Credyd	ODDA
------	-------------------------	---------------	---------------	------

Gorfodol

J/506/9582	101	Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt a chynnal ardaloedd gwaith	3	26
H/506/9377	102	Cyfrannu at ddatblygu perthynas weithio effeithiol	3	25
T/506/9495	103	Chwyth-sychu gwallt	4	40
F/506/9371	104	Siampwio a chyflyru gwallt	4	40
Dewisol				
L/506/9342	105	Cynorthwyo gyda gwasanaethau llacio	5	50
K/506/9588	106	Cynorthwyo gyda dyletswyddau derbynfa salon	4	38
A/506/9370	107	Cynorthwyo gyda gwasanaethau lliwio a goleuo gwallt	5	48
A/506/9496	108	Plethu a throelli gwallt gan ddefnyddio technegau sylfaenol	4	40
J/506/9369	ĉ	Cynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio gwallt	5	48
Y/506/9375	212	Tynnu estyniadau gwallt	5	48
L/506/9762	218	Cynorthwyo gyda Gwasanaethau eillio	5	39

Cyfanswm yr amser cymhwyso (CAC)

Cyfanswm amser y Cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio i ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sydd wedi'u rhestru ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, astudio ac asesu.

3 Gofynion y ganolfan

Cymeradwyo

Os yw eich Canolfan wedi'i chymeradwyo i gynnig y cymhwyster 3008-01/3008-51/3008-91 Tystysgrif NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr gallwch wneud cais am y dystysgrif NVQ Lefel 1 newydd 6008-01/6008-91 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr gan ddefnyddio'r ffurflen gymeradwyo llwybr carlam, sydd ar gael o wefan City & Guilds.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen llwybr carlam os:

- na fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y cymwysterau eu cyflwyno, a
- maent yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo yn y nodiadau canllaw'r ffurflen llwybr carlam.

Mae cymeradwyaeth llwybr carlam ar gael am 12 mis o lansio'r cymhwyster. Ar ôl 12 mis, bydd yn rhaid i'r Ganolfan fynd drwy'r Broses Cymeradwyo Cymwysterau safonol. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am wirio bod cymeradwyaeth llwybr carlam yn dal i fod yn gyfredol ar adeg y cais.

Er mwyn cynnig y cymwysterau hyn, bydd angen i ganolfannau newydd ennill cymeradwyaeth canolfan a chymeradwyaeth cymwysterau. Cyfeiriwch at Lawlyfr Canolfan City & Guilds am ragor o wybodaeth.

Dylai staff y ganolfan ymgyswddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymwysterau cyn cynllunio rhaglen cwrs.

Gofynion adnoddau

Staffio canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylent:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol a/neu'n dechnegol wybodus yn y mae/meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer a/neu sydd â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r cymhwysedd neu'r wybodaeth alwedigaethol hon fod o leiaf un lefel uwchlaw'r hyfforddiant a ddarperir
- feddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- feddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant

Rhaid i'r asesydd:

- feddu ar, neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster asesydd dilys yn seiliedig ar LSIS, LLCC yn gynt, Dysgu a Datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (2010)
- fod â gwybodaeth dechnegol fanwl am y cymhwyster
- gwblhau o leiaf 30 awr o DPP y flwyddyn (1 Medi-31 Awst).

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni allant sicrhau ansawdd mewnol eu hasesiadau eu hunain.

Cyfeiriwch at y ddogfen Canllaw Asesydd i gael manylion am rôl y goruchwylwyr a'r rheolwyr fel tystion.

Gofynion mynediad dysgwyr

Nid yw City & Guilds yn gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus.

Cyfyngiadau oedran

Mae'r cymhwyster hwn ar gael ar gyfer yr ystodau oedran canlynol: 14-19, 19+.

Mae cyfyngiadau cyfreithiol yn berthnasol i ymgeiswyr o dan 18 oed sy'n gweithio heb oruchwyliaeth gyda phlant. Dylai canolfannau ac ymgeiswyr fod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion oedran gofynnol yn eu cenedl gartref ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cwblhau asesiadau.

4 Cyflwyno'r cymhwyster

Aseiad cychwynnol ac ymsefydlu

Dylid gwneud aseiad cychwynnol o bob ymgeisydd cyn dechrau ei raglen i nodi:

- a oes gan yr ymgeisydd unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymwysterau
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y maent wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.
- a yw'r ymgeisydd yn deall y bobl sy'n rhan o'r aseiad a sut i ddangos tystiolaeth o'u perfformiad yn y gwaith a llunio portffolio o dystiolaeth

Rydym yn argymhell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu fel bod yr ymgeisydd yn deall gofynion y cymwysterau, eu cyfrifoldebau fel ymgeisydd yn llawn, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar contract dysgu.

Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn:

Disgrifiad	Sut i gael mynediad
Pecyn asesu	www.cityandguilds.com
Canllaw asesydd	www.cityandguilds.com
Llyfr log ymgeiswyr	www.cityandguilds.com

Dogfennau cofnodi

Gall ymgeiswyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull papur neu electronig o gofnodi tystiolaeth. Gellir archebu llyfrau log premiwm City & Guilds o'r Walled Garden (www.walledgarden.com).

Mae City & Guilds yn cymeradwyo sawl system ePortffolio, gan gynnwys ein Cynorthwy-ydd Dysgu ein hunain, offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio a diogel i gefnogi a dangos tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: www.cityandguilds.com/eportfolios.

5 Asesu

Crynodeb o'r dulliau asesu

Rhaid i ymgeiswyr:

- feddu ar bortffolio wedi'i gwblhau o dystiolaeth ar gyfer pob uned
- fod wedi cyflawni/cwblhau'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol

Mathau o asesiadau

Uned	Teitl	Dull asesu	Ble i gael deunyddiau asesu
101	Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt a chynnal ardaloedd gwaith	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein neu bapur	Rhif prawf 501 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
102	Cyfrannu at ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein neu bapur	Rhif prawf 502 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
103	Chwyth-sychu gwallt	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein neu bapur	Rhif prawf 503 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
104	Siampwio a chyflyru gwallt	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein neu bapur	Rhif prawf 504 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
105	Cynorthwyo gyda gwasanaethau llacio	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein neu bapur	Rhif prawf 505 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds

Uned	Teitl	Dull asesu	Ble i gael deunyddiau asesu
106	Cynorthwyo gyda dyletswyddau derbynfa salon	Portffolio a Phrawf amlddewis ar- lein neu bapur	Rhif prawf 506 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
107	Cynorthwyo gyda gwasanaethau lliwio a goleuo gwallt	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein NEU bapur	Rhif prawf 507 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
108	Plethu a throelli gwallt gan ddefnyddio technegau sylfaenol	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein NEU bapur	Rhif prawf 508 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
109	Cynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio gwallt	Portffolio a Phrawf amlddewis ar-lein NEU bapur	Rhif prawf 509 Profion papur amlddewis a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
212	Tynnu estyniadau gwallt	Portffolio a Phrawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Rhif prawf ar-lein 612 Papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
218	Cynorthwyo gyda gwasanaethau eillio	Portffolio a Phrawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Rhif prawf ar-lein 618 Papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds

Strategaeth asesu

Cynhyrchwyd y strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster hwn mewn partneriaeth â diwydiant, sefydliadau dyfarnu a Habia.

Mae'n amlinellu'r egwyddorion a'r gofynion sydd i'w cymhwyso i asesu perfformiad a chymhwysedd, a gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae'r holl wybodaeth

o'r strategaeth i'w gweld yn y dogfennau Llawlyfr Cymwysterau a'r Canllaw i Aseswyr, yn ogystal gellir lawrlwytho copi llawn o'r strategaeth o wefan Habia.

Mae'r strategaeth yn nodi'r gofynion tystiolaeth ar gyfer pob uned. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn adran dystiolaeth ategol pob uned yn y llawlyfr.

Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB / RPL)

Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) yn broses asesu sy'n defnyddio tystiolaeth o gyflawniadau blaenorol dysgwr nad ydynt wedi'u hardystio i ddangos cymhwysedd neu gyflawniad o fewn uned neu gymhwyster. Mae CDB yn caniatáu i unigolyn osgoi dysgu diangen, sy'n golygu y gall gael ei gyflwyno ar gyfer asesiad crynodol heb ailadrodd dysgu mewn meysydd lle bydd yn gallu dangos y gall fodloni'r canlyniad(au) dysgu.

Rôl aseswyr a staff sicrhau ansawdd o hyd yw sicrhau bod tystiolaeth ar gyfer CDB yn bodloni canlyniadau perthnasol y cymhwyster.

Mae llawlyfr y ganolfan yn cynnwys rhagor o wybodaeth am CDB.

6 Unedau

Unedau

Mae'r cymwysterau'n cynnwys nifer o unedau. Mae uned yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan berson cymwys mewn agweddau penodol ar ei swydd.

Rhennir pob uned yn ganlyniadau dysgu sy'n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd feddu arnynt.

Mae gan bob ganlyniad dysgu set o feini prawf asesu (perfformiad, a gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf a ddymunir y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni. Mae'r gofynion ymarferol a gwybodaeth o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol wedi'u mapio i bob maen prawf asesu.

Mae datganiadau ystod yn diffinio ehangder neu gwmpas ganlyniad dysgu a'i feini prawf asesu drwy nodi'r amgylchiadau amrywiol ar gyfer eu cymhwyso. Mae dau fath o ystod: ymarferol a gwybodaeth. Mae ystod ymarferol yn benodol i ganlyniad dysgu sy'n asesu cymhwysedd/sgiliau ymarferol. Mae ystod gwybodaeth yn benodol i ganlyniadau dysgu sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig yn sail i bob un o'r unedau. Manylir ar y rhain yn Atodiadau 1 a 2.

Rhifo unedau

Dechreuau rhifau uned Habia yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol naill ai gyda 'CHB' ar gyfer trin gwallt cyfunol a gwaith barbwr, 'C' ar gyfer gwallt Cyfunol, 'CH' ar gyfer trin gwallt cyfunol, 'CB' ar gyfer gwaith gwallt barbwr cyfunol, 'AH' ar gyfer gwallt o fath Affricanaidd. Bydd rhifau uned City & Guilds (rhif tri digid a osodir o flaen teitlau uned yn y llawlyfr a'r llyfrau log) yn cael eu defnyddio ar gyfer cofrestru ymgeiswyr a chofnodion canlyniadau.

Uned 101

Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt a chynnal ardaloedd gweithio (CHB1)

RHAU:	J/506/9582
Lefel uned:	lefel 1
Gwerth credyd:	3
ODDA:	26
Nod yr uned:	Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer trin gwallt a neu wasanaethau barbwr a chynnal ardaloedd gweithio.
Perthynas i SGC	SKACHB1
Wedi'i gymeradwyo gan	Habia
Math o asesiad:	Portffolio a phrawf amlddewis ar-lein NEU ar bapur.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Gallu paratoi a chynnal yr ardal weithio ar gyfer gwasanaethau gwallt

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Paratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt
 - a Cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth (P1)
 - b Paratoi eich cleient i fodloni gofynion salon (P2)
 - c Gwisgo offer amddiffynnol personol, pan fo angen (P3)
 - ch Gosod deunyddiau, offer a chyfarpar ar gyfer gwasanaethau gwallt yn dilyn cyfarwyddiadau'r steilydd (P4)
 - d Gwneud yn siŵr bod deunyddiau, offer, cyfarpar ac ardal weithio'n barod mewn pryd ar gyfer y gwasanaeth (P5)
 - dd Gwneud yn siŵr bod yr holl offer, ar gyfer gwasanaethau gwallt, yn cael eu glanhau gan ddefnyddio'r dull cywir (P6)
 - e Cael unrhyw gofnodion cleient mewn pryd ar gyfer ymgynghori gan y steilydd (P7)
- 1.2 Cynnal yr ardal weithio
 - a Gwaredu deunyddiau gwallt a gwastraff (P8)

- b Gwirio a glanhau offer yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr a gofynion eich salon (P9)
- c Gwneud yn siŵr bod digon o dywelion a gynau glân i bara drwy'r diwrnod gwaith (P10)
- ch Cadw stociau o gynhyrchion ac eitemau eraill y mae eu hangen ar gyfer gwasanaethau gwallt wedi'u hail-lenwi i'r lefelau sy'n ofynnol gan eich salon (P11)
- d Storio cofnodion, deunyddiau ac offer yn y lle gofynnol (P12)
- dd Glanhau arwynebau gwaith gan adael yr ardal weithio mewn cyflwr addas ar gyfer gwasanaethau pellach (P13)

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 2 Gwybod sut mae polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar gynnal a chadw ardaloedd gweithio

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 Amlinellu ei gyfrifoldebau ei hun ar gyfer iechyd a diogelwch
 - a Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich rôl swydd (K1)
 - b Egwyddorion hylendid salon cyffredinol mewn perthynas â lloriau a seddau, arwynebau gwaith, drychau ac offer salon (K2)
 - c Pam mae hi'n bwysig defnyddio offer amddiffynnol personol (K5)
 - ch Y math o offer amddiffynnol personol sydd ar gael (K6)
 - e Gofynion eich salon ar gyfer paratoi a chynnal a chadw'r ardal weithio, gan gynnwys gwirio a glanhau offer (K7)
- 2.2 Amlinellu pwysigrwydd cadw cofnodion cleientiaid a'u storio'n gywir
 - a Pwysigrwydd storio cofnodion cleientiaid yn gywir mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data (K11)
 - b Pwysigrwydd a rhesymau dros gadw cofnodion gwasanaethau gwallt (K12)
- 2.3 Disgrifio dermatitis cyswllt a sut y gellir ei atal
 - a Beth yw dermatitis cyswllt, a sut i osgoi ei ddatblygu wrth gynnal gwasanaethau (K8)
- 2.4 Nodi pwysigrwydd atal croes-heintio a thraws-heintio
 - a Dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintio a thraws-heintio (K3)
 - b Sut i lanhau, diheintio a sterileiddio gwahanol fathau o offer ar gyfer y gwahanol wasanaethau gwallt megis metelau, plastig, pren, trydanol (K9)
 - c Y gwahaniaeth rhwng sterileiddio a diheintio (K10)
- 2.5 Disgrifio'r peryglon posibl a'r risgiau posibl a allai ddigwydd yn y gweithle

- a Y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn (K4)
- 2.6 Disgrifio dulliau ac arferion gweithio diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy'r gwasanaethau
- a Pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr ar gyfer defnyddio offer, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel (K19)
-

Ystod

(MP2.1) Iechyd a Diogelwch: Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich swydd.

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
 - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
 - Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
 - Y Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw
 - Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
 - Y Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
 - Deddf Diogelu'r Amgylchedd
 - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)
-

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 3 Gwybod sut i baratoi a chynnal yr ardal weithio ar gyfer gwasanaethau gwallt

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 Disgrifio sut i baratoi ar gyfer gwasanaethau gwallt
- a Y mathau o gynhyrchion, deunyddiau, offer a chyfarpar y mae eu hangen ar gyfer gwasanaethau gwallt a gynigir gan eich salon (K16)
- 3.2 Disgrifio sut i storio cynhyrchion, deunyddiau, offer a chyfarpar y mae eu hangen ar gyfer gwasanaethau gwallt
- a Sut i osod deunyddiau, offer a chyfarpar ar gyfer y gwasanaethau gwallt a gynigir gan eich salon (K17)
- b Sut a ble i storio deunyddiau, offer a chyfarpar (K18)
- c Pwysigrwydd gwirio ac ailgyflenwi eitemau stoc (K20)
- 3.3 Amlinellu sut i waredu deunyddiau a chynhyrchion gwastraff i gynnal a chadw'r ardal weithio
- a Sut i waredu deunyddiau gwastraff a chynhyrchion o wasanaethau gwallt (K15)
- b Yr amgylchiadau ar gyfer gadael yr ardal weithio yn barod ar gyfer gwasanaethau pellach (K21)
- 3.4 Nodi pwysigrwydd deall a dilyn cyfarwyddiadau
-

a Pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau eich steilydd (K13)

b Pwysigrwydd gwirio eich bod wedi deall y cyfarwyddiadau a roddwyd gan y steilydd (K14)

Uned 101

Paratoiar gyfer gwasanaethau gwallt a
chynnal ardaloedd gweithio (CHB1)

Gwybodaeth Ategol

Gofynion tystiolaeth

1 Ni chaniateir efelychu ar gyfer unrhyw dystiolaeth perfformiad yn yr uned hon.

2 Mae'n rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cyrraedd y safon ar gyfer paratoi a chynnal ardaloedd gweithio.

3 Bydd eich Asesydd yn arsylwi ar eich perfformiad ar o leiaf 3 achlysur a rhaid iddo gynnwys paratoi ar gyfer 3 gwasanaeth trin gwallt neu waith barbwr gwahanol.

4 Dim eitemau ystod.

Uned 102

Cyfrannu at ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol (CHB2)

RHAU:	H/506/9377
Lefel uned:	lefel 1
Gwerth credyd:	3
ODDA:	25
Nod yr uned:	Mae'r safon hon yn ymwneud â ffurfio perthynas dda â chleientiaid mewn ffordd sy'n hyrwyddo ewyllys da ac ymddiriedaeth, gallu gweithio'n effeithiol wrth gefnogi'ch cydweithwyr a defnyddio cyfleoedd i ddysgu beth digwydd o fewn eich rôl swydd.
Perthynas â SGC:	SKACHB2
Wedi'i gymeradwyo gan	Habia
Math o asesiad:	Portffolio a phrawf amlddewis ar-lein NEU ar bapur.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Gallu datblygu perthynas waith gyda chleientiaid a chydweithwyr

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Datblygu perthynas waith effeithiol gyda chleientiaid
 - a Cyfathrebu â chleientiaid yn unol â gweithdrefnau sefydliadol (P1)
 - b Ymdrin ag eiddo cleientiaid yn ofalus a'u dychwelyd pan fo angen (P2)
 - c Cyfeirio unrhyw bryderon cleient at y person perthnasol (P3)
 - ch Cynnal cysur a gofal cleientiaid er boddhad y cleient (P4)
 - d Bodloni safonau eich salon ar gyfer ymddangosiad ac ymddygiad (P5)
- 1.2 Datblygu perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr
 - a Gofyn am help a gwybodaeth gan eich cydweithwyr, pan fo angen (P6)
 - b Ymateb i bob cais am gymorth (P7)
 - c Gwneud yn siŵr bod amseriad eich cymorth i gydweithwyr yn sicrhau bod y salon yn rhedeg yn esmwyth (P8)

ch Rhoi'r math o gymorth i'ch cydweithwyr sy'n cyflawni eich cyfrifoldebau swydd (P9)

d Trosglwyddo offer a deunyddiau mewn ffordd sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddidrafferth (P10)

dd Rhoi gwybod i'r person perthnasol am unrhyw broblemau sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau salon. (P11)

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2 Gallu cynllunio ar gyfer hunanddatblygiad o fewn rôl y swydd

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 Nodi cryfderau a gwendidau personol

a Nodi eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun yn rôl y swydd a sicrhau y cytunir ar y rhain gyda'r person perthnasol (P12)

b Dysgu mwy o wybodaeth gan bobl berthnasol i gyflawni tasg pan fo'r cyfarwyddiadau sydd gennych yn aneglur (P13)

c Gofyn am adborth gan bobl berthnasol ar eich cynnydd a sut y gellir gwella hyn (P14)

ch Gofyn i'ch cydweithwyr eich helpu i ddysgu os ydych yn cael tasgau'n anodd (P15)

e Cymryd cyfleoedd i ddysgu pan fyddant ar gael (P16)

2.2 Cyfrannu a chytuno i gynllun hunan-ddatblygu gyda thargedau

a Cytuno ar dargedau hunan-ddatblygu realistig gyda'r person perthnasol (P17)

b Adolygu'n rheolaidd eich cynnydd tuag at gyflawni eich targedau y cytunwyd arnynt (P18)

c Defnyddio canlyniadau eich adolygiadau i ddatblygu eich cynllun datblygu personol yn y dyfodol (P19)

Ystod

(MP2.1) Cyfleoedd i ddysgu: cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu

cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau salon

gwyllo gweithgareddau technegol

(MP2.1) Pobl berthnasol: cydweithwyr

cleientiaid

rheolaeth

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3 Gwybod y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at berthnasocedd gwaith effeithiol

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 Disgrifio sut mae salon a gofynion cyfreithiol yn effeithio ar berthnasoedd gwaith
- a Eich rôl swydd a'ch cyfrifoldebau a sut mae hyn yn berthnasol i rôl aelodau eraill o'r tîm (K1)
 - b Pan fydd angen i chi ofyn am gymorth, cytundeb neu ganiatâd gan eraill (K2)
 - c Pam mae hi'n bwysig gweithio o fewn eich cyfrifoldebau swydd a beth allai ddigwydd os na wnewch hynny (K3)
- ch Y safonau ymddygiad a ddisgwylir gennych wrth weithio yn y salon, gan gynnwys presenoldeb a phrydlondeb (K4)
- d Safonau eich salon ar gyfer ymddangosiad personol (K5)
- 3.2 Disgrifio technegau cyfathrebu a'u pwysigrwydd wrth ddatblygu perthnasoedd gwaith
- a Sut i gyfathrebu mewn ffordd glir, gwrtais a hyderus a pham mae hyn yn bwysig (K7)
 - b Y sgiliau holi a gwrando y mae eu hangen arnoch er mwyn darganfod gwybodaeth (K8)
 - c Y gwahanol ddulliau cyfathrebu (K9)
- ch Sut i adnabod pan fydd cleient yn ddig a phan fydd cleient wedi drysu (K10)
- 3.3 Amlinellu pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau salon
- a Canllawiau eich salon ar gyfer gofal cleientiaid a pham y dylid eu dilyn (K6)
- 3.4 Nodi pwysigrwydd gosod targedau a gwella perfformiad personol
- a Sut i gael gwybodaeth am eich swydd, eich cyfrifoldebau gwaith a'r safonau a ddisgwylir gennych (K11)
 - b Gweithdrefnau apelio a chwyno eich salon (K12)
 - c Eich targedau a'ch amserlenni datblygiad personol (K13)
- ch Pwysigrwydd cyrraedd eich targedau gwaith (K14)
- d Sut i adnabod eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun (K15)
- dd Pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus (K16)
- e Pwy all eich helpu i nodi a chael cyfleoedd ar gyfer eich datblygiad a'ch hyfforddiant (K17)
 - f Sut y gall defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol eich helpu i nodi eich anghenion datblygu (K18)
 - ff Pam mae perthynas waith dda yn bwysig (K19)
 - g Sut i ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau ac adborth a pham mae hyn yn bwysig (K20)
- ng Sut i reoli eich amser yn effeithiol (K21)
- h I bwy i adrodd pan fyddwch yn cael anawsterau wrth weithio gydag eraill (K22)

Gwybodaeth Ategol

Gofynion tystiolaeth

1 Ni chaniateir efelychu ar gyfer unrhyw dystiolaeth perfformiad yn yr uned hon.

2 Mae'n rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich sefyllfa waith eich bod wedi bodloni'r safonau ar gyfer cyfrannu at berthnasoedd gwaith effeithiol.

3 Bydd eich Asesydd yn arsylwi ar yr agweddau hyn ar eich perfformiad ar o leiaf 3 achlysur, a bydd 2 ohonynt yn ymdrin â'ch rhyngweithio â chleientiaid a bydd 1 ohonynt yn ymdrin â'ch rhyngweithio â chydweithwyr.

4 Rhaid i chi ddangos eich bod wedi:

- defnyddio pob cyfle i ryngweithio â phobl berthnasol.

5 Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch asesydd fod gennych y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i allu perfformio'n fedrus mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod hon.

* gellir dangos sgiliau neu wybodaeth am yr ystod sy'n weddill drwy unrhyw fath o bortffolio o dystiolaeth:

Prosiectau Gwaith a arsylwyd

Datganiadau tyst

Cyfryngau clyweledol

Tystiolaeth o ddysgu neu gyrhaeddiad blaenorol

Cwestiynau ysgrifenedig

Cwestiynau llafar

Aseiniadau

Astudiaethau achos

Trafodaeth broffesiynol

Os nad yw'r arsylwadau hyn wedi ymdrin yn llawn â gofynion yr ystod, efallai y gallwch ddarparu tystiolaeth ychwanegol a arsylwyd.

RHAU:	T/506/9495
Lefel uned:	Lefel 1
Gwerth credyd:	4
ODDA:	40
Nod yr uned:	Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal technegau chwyth-sychu sylfaenol gan ddefnyddio offer a chynhyrchion gan ddilyn cyfarwyddiadau'r steilydd.
Perthynas â SGC:	SKACHB5
Wedi'i gymeradwyo gan	Habia
Math o asesiad:	Portffolio a phrawf aml-ddewis ar-lein NEU ar bapur.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Gallu chwyth-sychu gwallt

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Paratoi ar gyfer gwasanaethau chwyth-sychu
 - a Paratoi eich cleient i fodloni gofynion salon (P2)
 - b Diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth (P3)
- 1.2 Defnyddio dulliau diogel a hylan o weithio drwy gydol y gwasanaethau
 - a Cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth (P1)
 - b Lleoli eich cleient i fodloni anghenion y gwasanaeth heb achosi anghysur iddynt (P4)
 - c Sicrhau bod eich osgo a'ch safle eich hun, wrth weithio, yn lleihau blinder a'r risg o anaf (P5)

ch Cadw eich man gwaith yn lân ac yn daclus drwy gydol y gwasanaeth (P6)

 - d Defnyddio dulliau gweithio sy'n:
 - (P7.1) lleihau gwastraff cynhyrchion
 - (P7.2) lleihau'r risg o ddifrod i offer a chyfarpar
 - (P7.3) lleihau'r risg o draws-heintio

- (P7.4) gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio
- (C7.5) sicrhau bod adnoddau glân yn cael eu defnyddio
- (P7.6) lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac eraill

dd Sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion a dderbynnir gan y diwydiant a'r sefydliad (P8)

e Dilyn cyfarwyddiadau'r steilwyr drwy gydol y gwasanaeth (P9)

f Dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu weithgynhyrchwyr ar gyfer defnyddio offer, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel (P10)

1.3 Cadarnhau cyfarwyddiadau chwyth-sychu gyda steilydd

a Cadarnhau cyfarwyddiadau chwyth-sychu gyda'ch steilydd cyn dechrau'r gwasanaeth (P11)

1.4 Defnyddio cynhyrchion yn ôl y cyfarwyddyd

a Defnyddio cynhyrchion, os oes angen, gan ddilyn cyfarwyddiadau eich steilydd (P12)

1.5 Dewis offer a chyfarpar addas

a Defnyddio eich offer a'ch cyfarpar yn effeithiol i gyflawni'r canlyniad gofynnol (P15)

1.6 Cynnal gwasanaethau chwyth-sychu

a Rheoli eich offer a'ch cyfarpar i leihau'r risg o ddifrod i'r gwallt ac anghysur i'r cleient (P13)

b Gwirio bod eich cleient yn gyfforddus yn ystod y broses chwyth-sychu (P14)

c Rheoli gwallt eich cleient yn ystod y broses chwyth-sychu (P16)

ch Cymryd rhannau o wallt sy'n gweddu i faint offer steilio (P17)

d Cynnal tensiwn yn gyson drwy gydol y broses chwyth-sychu (P18)

dd Cadw'r gwallt yn llaith drwy gydol y broses chwyth-sychu (P19)

e Sicrhau bod y canlyniad gorffenedig yn bodloni cyfarwyddiadau eich steilydd (P20)

Ystod

(MP1.3) Chwyth-sychu: creu cyfaint sythu
creu symudiad

(MP1.5) Offer: brwsys gwastad
brwsys crwn

(MP1.6) Gwallt: uwchben hyd ysgwydd
islaw hyd ysgwydd

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2 Gwybod sut mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau chwyth-sychu

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 Amlinellu cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn eu rôl eu hunain

- a Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich swydd (K1)
 - b Yr ystod o ddillad a chynhyrchion amddiffynnol a ddylai fod ar gael i chi'ch hun a chleientiaid (K4)
 - c Pwysigrwydd hylendid personol a chyflwyniad wrth gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle (K13)
- 2.2 Disgrifio'r peryglon posibl a'r risgiau posibl a allai ddigwydd yn y gweithle ac a allai effeithio ar wasanaethau
- 2.3 Disgrifio dulliau ac arferion gweithio diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy'r gwasanaethau
- a Gofynion eich salon ar gyfer paratoi cleientiaid (K2)
 - b Gofynion eich salon ar gyfer gwaredu gwastraff (K3)
 - c Sut y gall lleoliad eich cleient a chithau effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf (K6)
- ch Pam mae hi'n bwysig gosod eich offer, eich cynnyrch a'ch deunyddiau yn hwylus i'w defnyddio (K7)
- d Gofynion eich salon a'ch gofynion cyfreithiol ar gyfer gwaredu deunyddiau gwastraff (K10)
 - dd Pwysigrwydd gwirio cysur cleientiaid drwy gydol y broses chwyth-sychu (K21)
- 2.4 Disgrifio dermatitis cyswllt a sut y gellir ei atal
- a Beth yw dermatitis cyswllt , a sut i osgoi ei ddatblygu wrth gynnal gwasanaethau steilio a gorffen (K5)
- 2.5 Nodi pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau wrth chwyth-sychu a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau eich steilydd (K12)
- 2.6 Nodi pwysigrwydd atal croes-heintio a thraws-heintio
- a Pam mae'n bwysig cadw eich ardal waith yn lân ac yn daclus (K8)
 - b Dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintio a thraws-heintio(K9)
 - c Dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir mewn salonau (K14)

Ystod

(MP2.1) Iechyd a Diogelwch: Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich swydd

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
- Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
- Y Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Y Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 3 Gwybod gwyddoniaeth chwyth-sychu gwallt

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 Disgrifio strwythur y gwallt
 - a Strwythur sylfaenol y gwallt (K24)
- 3.2 Disgrifio effeithiau lleithder ar wallt
 - a Effeithiau lleithder ar y gwallt (K25)

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 4 Gwybod yr offer, y cyfarpar, y cynhyrchion a'r technegau a ddefnyddir i chwyth-sychu gwallt

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 Nodi'r offer, y cyfarpar a'r cynhyrchion sydd ar gael a'r effeithiau y maent yn eu cyflawni
 - a Mathau a dibenion cynhyrchion chwyth-sychu (K16)
 - b Yr ystod o frwsys gwastad a crwn sydd ar gael ar gyfer chwyth-sychu (K17)
- 4.2 Nodi pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau salon a gweithgynhyrchwyr ar gyfer cynhyrchion, offer a chyfarpar
 - a Cyfarwyddiadau cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr ar gyfer defnyddio offer, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn (K11)
- 4.3 Amlinellu pwysigrwydd defnyddio techneg gywir gyda gwasanaethau sychu a gorffen
 - a Amseroedd gwasanaeth disgwylidig eich salon ar gyfer gwasanaethau chwyth-sychu sylfaenol (K15)
 - b Pam a sut i ddefnyddio brwsys gwastad a crwn i greu cyfaint, symudiad ac i sythu gwallt (K18)
 - c Pam mae cyfeiriad y llif aer yn bwysig er mwyn cyflawni'r olwg a ddymunir ac i osgoi difrod i'r cwtigl (K19)
 - ch Pwysigrwydd rheoli eich offer i leihau difrod i'r gwallt a'r croen pen ac atal anghysur cleientiaid (K20)
 - d Dulliau o drin a rheoli adrannau gwallt yn ystod y broses chwyth-sychu (K22)
 - dd Sut y gall defnyddio gwres yn anghywir effeithio ar y gwallt a'r pen (K23)
- 4.4 Amlinellu pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn gost-effeithiol

Gwybodaeth Ategol

Gofynion tystiolaeth

1 Ni chaniateir efelychu ar gyfer unrhyw dystiolaeth perfformiad yn yr uned hon

2 Rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cyrraedd y safon ar gyfer chwyth-sychu gwallt

3 Bydd eich asesydd yn arsylwi ar yr agweddau hyn ar eich perfformiad ar o leiaf 3 achlysur yr un ar gyfer cleient gwahanol

4 O'r ystod, rhaid i chi ddangos eich bod wedi:

- defnyddio'r ddau fath o offer
- gweithio ar y ddau hyd gwallt
- defnyddio'r holl dechnegau chwyth-sychu

5 Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch asesydd fod gennych y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod hon.

* gellir dangos sgiliau neu wybodaeth am yr ystod sy'n weddill drwy unrhyw fath o bortffolio o dystiolaeth:

Prosiectau

Gwaith a arsylwyd

Datganiadau tyst

Cyfryngau clyweledol

Tystiolaeth o ddysgu neu gyrhaeddiad blaenorol

Cwestiynau ysgrifenedig

Cwestiynau llafar

Aseiniadau

Astudiaethau achos

Trafodaeth broffesiynol

Os nad yw'r arsylwadau hyn wedi ymdrin yn llawn â gofynion yr ystod, efallai y gallwch ddarparu tystiolaeth ychwanegol a arsylwyd.

RHAU:	F/506/9371
Lefel uned:	Lefel 1
Gwerth credyd:	4
ODDA:	40
Nod yr uned:	Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgîl o siampwio a chyflyru gan ddefnyddio technegau tylino a chynhyrchion ar gyfer gwahanol fathau o wallt, gan ddilyn cyfarwyddiadau steilydd.
Perthynas â SGC:	SKACHB10
Wedi'i gymeradwyo gan	Habia
Math o asesiad:	Portffolio a phrawf aml-ddewis ar-lein NEU ar bapur.

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Gallu siampwio a chyflyru'r gwallt a chroen y pen

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Paratoi ar gyfer gwasanaethau siampwio a chyflyru
 - a Paratoi eich cleient i fodloni gofynion salon (P2)
 - b Sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion a dderbynnir gan y diwydiant a'r sefydliad (P9)
 - c Ailgyflenwi lefelau isel o adnoddau, pan fo angen, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar eich gwaith eich hun ac ar gleientiaid (P12)
- 1.2 Defnyddio dulliau diogel a hylan o weithio drwy gydol y gwasanaethau
 - a Cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth (P1)
 - b Diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth (P3)
 - c Gwisgo offer amddiffynnol personol, os oes angen (P4)

ch Lleoli eich cleient i fodloni anghenion y gwasanaeth heb achosi anghysur iddynt (P5)

- d Sicrhau bod eich osgo a'ch safle eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf (P6)
- dd Cadw eich ardal waith yn lân ac yn daclus drwy gydol y gwasanaeth (P7)
- e Defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau'r risg o draws-heintio (C8.2)
- f Defnyddio dulliau gwaith sy'n sicrhau y defnyddir adnoddau glân (P8.4)
- ff Defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac eraill (P8.5)
- g Dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu weithgynhyrchwyr ar gyfer defnyddio offer, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel (P11)
- 1.3 Defnyddio cynhyrchion, offer a chyfarpar yn ôl cyfarwyddyd
 - a Defnyddio cynhyrchion ac offer yn dilyn cyfarwyddiadau'r steilydd (P14)
- 1.4 Cynnal gwasanaethau siampwê a chyflyru yn ôl y cyfarwyddyd
 - a Defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau gwastraff cynhyrchion (P8.1)
 - b Defnyddio dulliau gwaith sy'n gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio (P8.3)
 - c Dilyn cyfarwyddiadau'r steilwyr drwy gydol y gwasanaeth (P10)

ch Cwblhau'r gwasanaeth siampwio a chyflyru o fewn amser sy'n fasnachol hyfyw (P13)

 - d Amser gwasanaeth disgwylidig eich salon ar gyfer siampwio a chyflyru (K14)
 - dd Defnyddio technegau tylino sy'n addas ar gyfer gwallt eich cleient gan ddilyn cyfarwyddiadau'r steilydd (P15)
 - e Addasu tymheredd, llif a chyfeiriad y dŵr i weddu i anghenion gwallt eich cleient a rhan nesaf y gwasanaeth (P16)
 - f Sicrhau bod eich technegau tylino yn cael dosbarthiad cysgon o siampwê dros y gwallt a chroen y pen (P17)
 - ff Gadael gwallt eich cleient yn lân ac yn rhydd o siampwê a dŵr dros ben (P18)
 - g Gadael gwallt eich cleient yn rhydd a heb ddifrod i'r gwallt a chroen y pen (P19)

ng Cyfeirio unrhyw broblemau at y person perthnasol (P20)

 - h Defnyddio cynhyrchion ac offer cyflyru gan ddilyn cyfarwyddiadau'r steilydd (P21)
 - i Defnyddio technegau tylino sy'n addas ar gyfer gwallt eich cleient yn dilyn cyfarwyddiadau'r steilydd (P22)
 - l Monitro ac amseru datblygu'r cynhyrchion cyflyru a defnyddio gwres ar y tymheredd cywir, os oes angen (P23)
 - ll Tynnu'r cynhyrchion cyflyru mewn ffordd sy'n osgoi tarfu ar gyfeiriad y cwtigl (P24)
 - m Gadael gwallt eich cleient yn lân ac yn rhydd o gynhyrchion cyflyru, os oes angen a dŵr dros ben (P25)
 - n Cribo drwy wallt eich cleient heb achosi niwed i'r gwallt a'r pen, pan fo angen (P26)
 - o Cyfeirio unrhyw broblemau at y person perthnasol (P27)

Ystod
(MP1.4) Technegau tylino: effleurage

cylchdroi
ffrithiant
petrissage
(MP1.4) Cynhyrchion cyflyru:
arwyneb
treiddiol

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 2 Gwybod sut mae polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau siampwio a chyflyru

Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 Amlinellu cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn eu rôl eu hunain
 - a Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich swydd (K1)
 - b Yr ystod o ddillad amddiffynnol a ddylai fod ar gael i chi'ch hun a chleientiaid (K3)
 - c Pwysigrwydd hylendid personol a chyflwyniad wrth gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle (K12)
- 2.2 Disgrifio'r peryglon posibl a'r risgiau posibl a allai ddigwydd yn y gweithle ac effeithio ar wasanaethau
 - a Y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn (K9)
- 2.3 Nodi dulliau ac arferion gweithio diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol y gwasanaethau
 - a Gofynion eich salon ar gyfer paratoi cleientiaid (K2)
 - b Sut y gall lleoliad eich cleient a chithau effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf (K5)
 - c Pwysigrwydd gwirio cysur cleientiaid drwy gydol y broses siampwio a chyflyru (K28)
 - ch Sut i ddefnyddio offer wedi'i wresogi'n drydanol wrth gyflyru gwallt (K30)
- 2.4 Disgrifio dermatitis cyswllt a sut y gellir ei atal
 - a Beth yw dermatitis cyswllt , a sut i osgoi ei ddatblygu wrth gynnal gwasanaethau trin gwallt (K4)
- 2.5 Nodi pwysigrwydd dilyn strwythurau wrth siampwio a chyflyru
 - a Pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau eich steilydd (K10)
 - b Y person y dylech adrodd lefelau isel o adnoddau iddo (K13)
 - c Beth allai ddigwydd os na ddilynr cyfarwyddiadau ar gyfer siampwio a chyflyru gwallt (K15)
- 2.6 Nodi pwysigrwydd atal croes-heintio a thraws-heintio
 - a Pam mae'n bwysig cadw eich ardal waith yn lân ac yn daclus (K6)
 - b Dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintio a thraws-heintio(K8)

Ystod

(MP2.1) Iechyd a diogelwch: Eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu eich swydd

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
 - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
 - Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
 - Y Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw
 - Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
 - Y Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
 - Deddf Diogelu'r Amgylchedd
 - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)
-

